Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 2 MAWRTH 2009

Mae mis Mawrth ym Morlan yn fis da ar gyfer y rheiny ohonoch sydd am wella eich ffitrwydd gan fod dau dwmpath ac un ceilidh yn cael eu cynnal yma yn ystod y mis! Fe welwch y manylion isod, ynghyd â manylion gweddill y digwyddiadau sy'n digwydd yma dros y pythefnos nesaf.

SAME DIFFERENCE – yr arddangosfa gelf ddiddiwedd i blant
9.00-4.00, Llun i Gwener, hyd at 3 Ebrill
Arddangosfa gyffrous a phwerus o waith celf plant o Brydain a thramor sy'n annog pobl i feddwl am fywydau plant mewn gwledydd tlawd gan dynnu sylw at yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng plant o bob rhan o'r byd. Mae'n cynnwys hefyd enghreifftiau o farddoniaeth plant sy'n ymwneud â materion hawliau dynol. Ar 3-4 Mawrth, bydd plant o ysgolion lleol yn mynychu gweithdai celf gyda chyfle i fod yn rhan o'r arddangosfa unigryw hon, ac ar 24 Mawrth, caiff plant eraill gyfle i fynychu gweithdai barddoniaeth ar yr arddangosfa dan ofal Ifor ap Glyn, Bardd Plant Cymru. Mae'r arddangosfa hefyd yn agored i'r cyhoedd (Llun-Gwener) – yn rhad ac am ddim – heblaw am y dyddiadau hyn: 3-4 Mawrth, 16 Mawrth, 23-24 Mawrth, 31 Mawrth.

Gallai'r arddangosfa wneud testun diddorol ar gyfer sesiwn Ysgol Sul. Os hoffai unrhyw gapel neu eglwys ddod â grŵp o blant i weld yr arddangosfa a chynnal sesiwn yma, mae croeso i chi wneud hynny – cysylltwch.

RHWYDWAITH HEDDWCH A CHYFIAWNDER ABERYSTWYTH
8.15, nos Fercher, 4 Mawrth
Cyfarfod cyffredinol blynyddol y mudiad.

CYFARFOD AMNEST RHYNGWLADOL
7.30, nos Iau, 5 Mawrth
Cyfarfod misol nesaf y gangen Amnest leol.

FFAIR WANWYN
10.30-12.30, bore Sadwrn, 7 Mawrth
Cyfle i fwynhau paned a sgwrs a phori'r amryw stondinau – sy'n cynnwys cynnyrch cartref (cacennau, jamiau, *quiches*, pasteiod, ...), llyfrau, teganau, raffl – a mwy! Cyfle hefyd i brynu rhai eitemau mewn ocsiwn tawel, gan gynnwys cerdd am Aberystwyth gan y Prifardd Iwan Llwyd (yn ei lawysgrifen). Bydd hyn i gyd yn cynorthwyo grŵp o fechgyn lleol gyda'u hymdrechion codi arian ar gyfer eu halldaith i Gosta Rica ym mis Gorffennaf. Yn ystod eu cyfnod yno byddant yn rhoi help llaw ar brosiectau cymunedol lleol. Dewch i gefnogi felly.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 12 Mawrth a dydd Mawrth, 24 Mawrth
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan yr haf.

CYNEFIN Y WERIN
2.00-6.00, dydd Sadwrn , 14 Mawrth
Dim manylion pellach.

CEILIDH
7.30-10.30, nos Sul, 15 Mawrth
Trefnir gan Fudiad Sgowtio a Geidio i Fyfyrwyr Aberystwyth i hel arian ar gyfer eu trip i Wlad yr Iâ yn 2009. Tocynnau: £4 o flaen llaw (£5 wrth y drws) ac ar gael trwy e-bostio Amy Pettit (amp6@aber.ac.uk <mailto:amp6@aber.ac.uk>).

TWMPATH GŴYL DDEWI Y MORLAN
7.30, nos Lun, 16 Mawrth
Noson arbennig, wedi'i threfnu gan Morlan, i groesawu myfyrwyr ac ymwelwyr tramor i Aberystwyth a rhoi cyfle iddynt ddysgu rhywfaint am ddiwylliant ein gwlad. Bydd Parti Dawns Aberystwyth hefyd yn arddangos rhai dawnsfeydd. Croeso i bawb – mynediad am ddim. Dewch i'n cynorthwyo i roi croeso traddodiadol Cymreig i'r ymwelwyr hyn!

TWMPATH DAWNS (galwr: Nigel Hardy)
7.30-9.00, nos Sadwrn, 28 Mawrth
Noson o hwyl a dawnsio. Mynediad trwy gyfraniad, bydd bwrdd yn gwerthu eitemau amrywiol yno a bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Elw at Ieuenctid Cymru i Lourdes.

Cofiwch hefyd am wefan newydd Morlan ble cewch y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddigwyddiadau ar www.morlan.org.uk.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr